# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Alun G. Davies

Sefydliad Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015** i:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Ymatebwyr | Ysgolion | ✓ ☐ |
| | Ysgolion arbennig | ☐ |
| | Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | ☐ |
| | Y sector addysg bellach | ☐ |
| | Sefydliadau cyn ysgol | ☐ |
| | Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg | ☐ |
| | Undebau athrawon | ☐ |
| | Llywodraeth leol | ☐ |
| | Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith | ☐ |
| | Byrddau Iechyd Lleol | ☐ |
| | Gweithwyr iechyd proffesiynol | ☐ |
| | Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | ☐ |
| | Sefydliadau'r trydydd sector | ☐ |
| | Unigolion | ☐ |
| | Arall | ☐ |

## Cwestiynau ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r Bil drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

**Cwestiwn 1 – Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0–25**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid gweithredu'r cynigion yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â dymuniad y plentyn, person ifanc a/neu riant.

Mae diffygion sylweddol iawn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY ar hyn o bryd, a hynny'n aml oherwydd diffyg capasiti/arbenigedd o fewn y gweithluoedd perthnasol. Bydd ymestyn yr ystod oedran yn debygol o waethygu'r sefyllfa, er ei fod i'w groesawu mewn egwyddor.

Rhaid cofio, ymhlith y grŵp oedran cyn-ysgol yn arbennig, bod plant sy'n uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrlon.

Nid oes sylw dyledus wedi'i roi i'r mater ganolog hwn yn y Bil ei hun nac yn y dogfennau cefnogol.

**Cwestiwn 2 – Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno heb sylw i'r isod | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Lefel y cyfrifoldeb ar ysgolion**

Yn sgil dileu Datganiadau, mae'n ymddangos bod cryn dipyn o gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo o Awdurdodau Lleol i ysgolion unigol, o ran gwneud penderfyniadau (*determinations*) ac o ran llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol.

Os yw hynny'n gywir, mae angen cynllunio ar gyfer y sgil-effeithiau yn arbennig felly yn nhermau:

- neilltuo adnoddau cyllidebol digonol
- sicrhau lefelau staffio digonol
- darparu lefel briodol ac amserol o ran hyfforddiant (i gyrff llywodraethu, arweinwyr ysgol, cydlynwyr ADY, athrawon a chynorthwywyr dysgu)
- sicrhau bod cyngor arbenigol amserol ar gael i ysgolion

Mae'r pwysau ar ysgolion bach, ble mae lefelau staffio'n isel iawn – ond eto ble mae'r ganran o blant ag ADY yn gallu bod yn uchel - yn debygol o fod yn sylweddol iawn.

**Lefel y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith i'r Cydlynydd ADY**

Mae'r disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd yn y Cod drafft i'w groesawu, a chytunwn y dylai'r Cydlynydd fod yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'n edrych yn glir o ddarllen y disgrifiad o'r rôl a'r cyfrifoldebau mai swydd llawn amser yw hon. Anodd iawn yw ceisio dychmygu ymgymryd â dyletswyddau o'r fath ochr yn ochr ag amserlen dysgu a hynny yn sgil:

- y llwyth gwaith sylweddol iawn (gan gynnwys materion rheolaethol)
- y lefel o arbenigedd sydd ei angen
- yr angen am hyblygrwydd o ran amser i allu cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod y diwrnod gwaith

Dylid dweud hynny'n glir yn y Cod.

Yn yr achosion hynny ble nad yw'n ymarferol i apwyntio un person llawn amser, er enghraifft, mewn ysgolion bach, dylid nodi'r posibilrwydd o benodi Cydlynydd ADY llawn amser ar gyfer clwstwr o ysgolion.

**Anghenion Hyfforddiant a Chymwysterau**

Yn ychwanegol at yr angen am hyfforddiant ymhlith staff presennol ysgolion, Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol, bydd angen cynllunio ar gyfer cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o faterion ADY ymhlith y gweithlu dysgu cyfan.

**Y Gymraeg**

O ran creu fframwaith cyfreithiol cadarn, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil at egwyddorion Mesur y Gymraeg (2011) sy'n datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylai'r broses gynllunio, ynghyd â phob cam arall yn y broses, fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rhieni. **Dylai'r egwyddor honno gael ei nodi'r glir ar wyneb y Mesur fel gofyniad statudol. Os mai'r ddadl yw bod triniaeth hafal a'r rheidrwydd i ymateb i anghenion yn y ddwy iaith yn ddealledig yn y bil drafft, yna mae angen datganiad di-amwys ac eglur ar ddechrau'r bil.**

Os nad oes modd i'r broses gynllunio ddigwydd yn newis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rhieni, mae peryg eu dieithrio o'r cychwyn. Gellid dadlau yn ogystal bod peryg o gamwahaniaethu.

| Cwestiwn 3 – Dyheadau uchel a gwell deilliannau |
|---|
| A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo? |

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n bosib bod y Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, ond nid oes unrhyw sicrwydd bod hynny'n wir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae risg gwirioneddol o wahaniaethu yn eu herbyn.<br><br>Heb fewnbwn ariannol i sicrhau capasiti ysgolion i ymdopi a'r cyfrifoldebau eang a phwysig newydd ni allwn warantu, ymhob ahos, fod buddiannau plant ag ADY yn cael eu diogelu. |

| Cwestiwn 4 – Rhagor o gydweithredu |
|---|
| A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY? |

| Cytuno | ☐ | Anghytuno heb fod rhagor o ystyriaeth i'r isod | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae’r pwyslais ar gydweithio i’w groesawu – rhaid osgoi dyblygu diangen a sicrhau cyd-drafodaeth rhwng yr arbenigwyr yn yr amrywiol meysydd er mwyn cynllunio a darparu’n effeithiol ar gyfer y plant a phobl ifanc dan sylw.

Fodd bynnag, mae rhai ystyriaethau pwysig.

**Amser a chapasiti**: mae angen amser sylweddol ar gyfer cydlynu’r math hwn o gydweithio, ac mae angen i’r person â’r cyfrifoldeb (fel arfer y Cydlynydd ADY) fod ar gael am gyfnodau drwy gydol y diwrnod gwaith. Nid yw hyn yn cydweddu ag amserlen ddysgu. **Gallai’r amser angenrheidiol i gydlynu asiantaethau fod yn ddefnydd amhriodol o arbenigedd ac amser y Cydlynydd gan eu bod ynghlwm a gwaith gweinyddol yn ystod y diwrnod gwaith yn hytrach na mewnbwn arbenigol i blant ag ADY. Mae hyn yn gofyn eto am gyllido canolog ar gyfer cymorth gweinyddol ategol ac arian i sicrhau diogelu amser di-gyswllt.**

**Iaith:** mae gwaith aml-asiantaeth yn aml iawn yn golygu bod popeth yn digwydd yn Saesneg. Mae'r Byrddau Iechyd yn arbennig yn dueddol o fynnu derbyn pob dogfennaeth yn Saesneg, neu'n bygwth y bydd oedi yn y broses i ganiatáu am gyfieithu.

Mae'r math hon o gyfundrefn yn gorfodi pobl i ddewis rhwng derbyn gwasanaeth prydlon ar y naill law, neu wasanaeth Gymraeg ar y llall. Mae'r holl broses yn creu anghymhelliad cryf iawn rhag defnyddio'r Gymraeg. Dylid cynnwys dyletswydd ar wyneb y Mesur ar yr asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn y Gymraeg os mai dyna dymuniad y plentyn/person ifanc/rhieni.

**Cwestiwn 5 – Osgoi anghytundebau, datrys anghytundebau'n gynharach a hawliau clir a chyson i apelio**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid cyfeirio’n benodol at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfeiriadau yn y Cod drafft at ‘*suitable format*’ a ‘*plain language*’, ond dim cyfeiriad at gyfrwng iaith y prosesau.

**Cwestiwn 6 – Dogfennau ategol**

A fyddech cystal â nodi unrhyw adborth defnyddiol sydd gennych ynghylch y dogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, h.y. y Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), yr holl Asesiadau o Effaith a'r Cod ADY drafft (a gyhoeddir yn yr hydref).

Nid oes unrhyw un o'r dogfennau ategol yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o'r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i'r afael â'r anawsterau a'r gwendidau hyn.

O ran y Cod, mae'r cyfeiriad ym mharagraff 14 at Safonau'r Gymraeg yn annigonol. Er bod Awdurdodau Lleol yn dod dan gwmpas y Safonau, nid yw'r safonau'n gyson o un Awdurdod i'r llall ac felly ni fyddant yn creu darpariaeth gyson ledled Cymru o ran y gyfundrefn ADY. Yn bwysicach byth, nid yw ysgolion yn ddarostyngedig i'r Safonau.

Dylai'r Cod nodi gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- yr hawl i gael darpariaeth Gymraeg ac ymdrin â'r prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys prosesau aml-asiantaeth
- parchu dewis iaith y plant a'u rhieni, a phobl ifanc wrth annog cyfranogiad yn y broses, a chamau ymarferol y dylid eu cymryd i hwyluso hynny
- darparu'r wybodaeth a chyngor y cyfeirir atynt yn y Gymraeg –ar bapur, yn electronaidd neu ar lafar
- nodi (a) cyfrwng iaith addysg y plentyn/person ifanc (b) dewis iaith cyfathrebu'r plentyn/person ifanc a'i rieni o ran cynnwys gorfodol y Cynlluniau Datblygu Unigol
- yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol

Dylai'r rhain oll fod yn ofyniadau gorfodol yn y Cod Ymarfer fel bod eglurder ynghylch y cyfrifoldebau, y dyletswyddau a'r hawliau. Yn dilyn egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ni ddylai darparu neu weinyddu'r broses yn y Gymraeg olygu oedi, na gwasanaeth israddol mewn unrhyw ffordd i'r defnyddwyr.

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Anne Marie Roderick

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015** i:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Ymatebwyr | Ysgolion | ✓ ☐ |
| | Ysgolion arbennig | ☐ |
| | Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | ✓ ☐ |
| | Y sector addysg bellach | ☐ |
| | Sefydliadau cyn ysgol | ☐ |
| | Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg | ☐ |
| | Undebau athrawon | ☐ |
| | Llywodraeth leol | ☐ |
| | Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith | ☐ |
| | Byrddau Iechyd Lleol | ☐ |
| | Gweithwyr iechyd proffesiynol | ☐ |
| | Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | ☐ |
| | Sefydliadau'r trydydd sector | ☐ |
| | Unigolion | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| | Arall | ☐ |

## Cwestiynau ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r Bil drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

**Cwestiwn 1 – Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0–25**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid gweithredu'r cynigion yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â dymuniad y plentyn, person ifanc a/neu riant.

Mae diffygion sylweddol iawn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY ar hyn o bryd, a hynny'n aml oherwydd diffyg capasiti/arbenigedd o fewn y gweithluoedd perthnasol. Bydd ymestyn yr ystod oedran yn debygol o waethygu'r sefyllfa, er ei fod i'w groesawu mewn egwyddor.

Rhaid cofio, ymhlith y grŵp oedran cyn-ysgol yn arbennig, bod plant sy'n uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrlon.

Nid oes sylw dyledus wedi'i roi i'r mater ganolog hwn yn y Bil ei hun nac yn y dogfennau cefnogol.

**Cwestiwn 2 – Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Lefel y cyfrifoldeb ar ysgolion**

Yn sgil dileu Datganiadau, mae'n ymddangos bod cryn dipyn o gyfrifoldeb yn cael ei

drosglwyddo o Awdurdodau Lleol i ysgolion unigol, o ran gwneud penderfyniadau (*determinations*) ac o ran llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol.

Os yw hynny'n gywir, mae angen cynllunio ar gyfer y sgil-effeithiau yn arbennig felly yn nhermau:

- neilltuo adnoddau cyllidebol digonol
- sicrhau lefelau staffio digonol
- darparu lefel priodol ac amserol o ran hyfforddiant (i gyrff llywodraethu, arweinwyr ysgol, cydlynwyr ADY, athrawon a chynorthwywyr dysgu)
- sicrhau bod cyngor arbenigol amserol ar gael i ysgolion

Mae'r straen ar ysgolion bach, ble mae lefelau staffio'n isel iawn – ond eto ble mae'r ganran o blant ag ADY yn gallu bod yn uchel - yn debygol o fod yn sylweddol iawn.

**Lefel y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith i'r Cydlynydd ADY**

Mae'r disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd yn y Cod drafft i'w groesawu, a chytunwn y dylai'r Cydlynydd fod yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'n edrych yn glir o ddarllen y disgrifiad o'r rôl a'r cyfrifoldebau mai swydd llawn amser yw hon. Anodd iawn yw ceisio dychmygu ymgymryd â dyletswyddau o'r fath ochr yn ochr ag amserlen dysgu a hynny yn sgil:

- y llwyth gwaith sylweddol iawn (gan gynnwys materion rheolaethol)
- y lefel o arbenigedd sydd ei angen
- yr angen am hyblygrwydd o ran amser i allu cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod y diwrnod gwaith

Dylid dweud hynny'n glir yn y Cod.

Yn yr achosion hynny ble nad yw'n ymarferol i apwyntio un person llawn amser, er enghraifft, mewn ysgolion bach, dylid nodi'r posibilrwydd o benodi Cydlynydd ADY llawn amser ar gyfer clwstwr o ysgolion.

**Anghenion Hyfforddiant a Chymwysterau**

Yn ychwanegol at yr angen am hyfforddiant ymhlith staff presennol ysgolion, Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol, bydd angen cynllunio ar gyfer cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o faterion ADY ymhlith y gweithlu dysgu cyfan.

**Y Gymraeg**

O ran creu fframwaith cyfreithiol cadarn, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil at egwyddorion Mesur y Gymraeg (2011) sy'n datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylai'r broses gynllunio, ynghyd â phob cam arall yn y broses, fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rhieni. Dylai'r egwyddor honno gael ei nodi'r glir ar wyneb y Mesur fel gofyniad statudol.

Os nad oes modd i'r broses gynllunio ddigwydd yn newis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rhieni, mae peryg eu dieithrio o'r cychwyn. Gellid dadlau yn ogystal bod peryg o gamwahaniaethu.

## Cwestiwn 3 – Dyheadau uchel a gwell deilliannau

| |
|---|
| A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo? |

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | **X** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n bosib bod y Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, ond nid oes unrhyw sicrwydd bod hynny'n wir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae risg gwirioneddol o wahaniaethu yn eu herbyn. |

**Cwestiwn 4 – Rhagor o gydweithredu**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | **X** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'r pwyslais ar gydweithio i'w groesawu – rhaid osgoi dyblygu diangen a sicrhau cyd-drafodaeth rhwng yr arbenigwyr yn yr amrywiol meysydd er mwyn cynllunio a darparu'n effeithiol ar gyfer y plant a phobl ifanc dan sylw.

Fodd bynnag, mae rhai ystyriaethau pwysig.

**Amser a chapasiti**: mae angen amser sylweddol ar gyfer cydlynu'r math hwn o gydweithio, ac mae angen i'r person â'r cyfrifoldeb (fel arfer y Cydlynydd ADY) fod ar gael am gyfnodau drwy gydol y diwrnod gwaith. Nid yw hyn yn cydweddu ag amserlen ddysgu.

**Iaith:** mae gwaith aml-asiantaeth yn aml iawn yn golygu bod popeth yn digwydd yn Saesneg. Mae'r Byrddau Iechyd yn arbennig yn dueddol o fynnu derbyn pob dogfennaeth yn Saesneg, neu'n bygwth y bydd oedi yn y broses i ganiatáu am gyfieithu.

Mae'r math hon o gyfundrefn yn gorfodi pobl i ddewis rhwng derbyn gwasanaeth prydlon ar y naill law, neu wasanaeth Gymraeg ar y llall. Mae'r holl broses yn creu anghymhelliad cryf iawn rhag defnyddio'r Gymraeg. Dylid cynnwys dyletswydd ar wyneb y Mesur ar yr asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn y Gymraeg os mai dyna dymuniad y plentyn/person ifanc/rhieni.

**Cwestiwn 5 – Osgoi anghytundebau, datrys anghytundebau'n gynharach a hawliau clir a chyson i apelio**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid cyfeirio'n benodol at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfeiriadau yn y Cod drafft at '*suitable format*' a '*plain language*', ond dim cyfeiriad at gyfrwng iaith y prosesau.

**Cwestiwn 6 – Dogfennau ategol**

A fyddech cystal â nodi unrhyw adborth defnyddiol sydd gennych ynghylch y dogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, h.y. y Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), yr holl Asesiadau o Effaith a'r Cod ADY drafft (a gyhoeddir yn yr hydref).

Nid oes unrhyw un o'r dogfennau ategol yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o'r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i'r afael â'r anawsterau a'r gwendidau hyn.

O ran y Cod, mae'r cyfeiriad ym mharagraff 14 at Safonau'r Gymraeg yn annigonol. Er bod Awdurdodau Lleol yn dod dan gwmpas y Safonau, nid yw'r safonau'n gyson o un Awdurdod i'r llall ac felly ni fyddant yn creu darpariaeth gyson ledled Cymru o ran y gyfundrefn ADY. Yn bwysicach byth, nid yw ysgolion yn ddarostyngedig i'r Safonau.

Dylai'r Cod nodi gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- yr hawl i gael darpariaeth Gymraeg ac ymdrin â'r prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys prosesau aml-asiantaeth
- parchu dewis iaith y plant a'u rhieni, a phobl ifanc wrth annog cyfranogiad yn y broses, a chamau ymarferol y dylid eu cymryd i hwyluso hynny
- darparu'r wybodaeth a chyngor y cyfeirir atynt yn y Gymraeg –ar bapur, yn electronaidd neu ar lafar
- nodi (a) cyfrwng iaith addysg y plentyn/person ifanc (b) dewis iaith cyfathrebu'r plentyn/person ifanc a'i rieni o ran cynnwys gorfodol y Cynlluniau Datblygu Unigol
- yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y

Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol

Dylai'r rhain oll fod yn ofyniadau gorfodol yn y Cod Ymarfer fel bod eglurder ynghylch y cyfrifoldebau, y dyletswyddau a'r hawliau. Yn dilyn egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ni ddylai darparu neu weinyddu'r broses yn y Gymraeg olygu oedi, na gwasanaeth israddol mewn unrhyw ffordd i'r defnyddwyr.

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: D. Bryan James

Sefydliad (os yw'n berthnasol):
Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015** i:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Ymatebwyr | Ysgolion | ☐ |
| | Ysgolion arbennig | ☐ |
| | Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | ☐ |
| | Y sector addysg bellach | ☐ |
| | Sefydliadau cyn ysgol | ☐ |
| | Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg | ☐ |
| | Undebau athrawon | ☐ |
| | Llywodraeth leol | ☐ |
| | Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith | ☐ |
| | Byrddau Iechyd Lleol | ☐ |
| | Gweithwyr iechyd proffesiynol | ☐ |
| | Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | ☐ |
| | Sefydliadau'r trydydd sector | ☐ |
| | Unigolion | ☐ |
| | Arall | x |

| | | ☐ |
|---|---|---|

## Cwestiynau ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r Bil drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

**Cwestiwn 1 – Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0–25**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'n egwyddor gwbl sylfaenol y dylid gweithredu'r cynigion yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â dymuniad y plentyn, person ifanc a/neu riant.

Mae diffygion sylweddol iawn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY ar hyn o bryd, a hynny'n aml oherwydd diffyg capasiti/arbenigedd o fewn y gweithluoedd perthnasol. Bydd ymestyn yr ystod oedran yn debygol o waethygu'r sefyllfa, er ei fod i'w groesawu mewn egwyddor.

Rhaid cofio, ymhlith y grŵp oedran cyn-ysgol yn arbennig, bod plant sy'n uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrlon.

Ni theimlwn fod sylw dyledus wedi'i roi i'r mater canolog hwn yn y Bil ei hun (o ran yr egwyddor o weithredu'n gyfartal drwy'r ddwy iaith) nac yn y dogfennau cefnogol (o ran yr anghenion datblygu o fewn y gweithlu).

**Cwestiwn 2 – Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

O ran creu fframwaith cyfreithiol cadarn, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil at egwyddorion Mesur y Gymraeg (2011) sy'n datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai egwyddorion cyfreithiol y Mesur fod yn ystyriaeth

drosfwaol i’r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Dylai'r broses gynllunio – ynghyd â phob cam arall yn y broses – fod ar gael yn gydradd drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg, yn ôl dewis iaith y plentyn/person ifanc a/neu’r rhieni. Dylai’r egwyddor honno gael ei nodi’n glir ar wyneb y Mesur fel gofyniad statudol.

Os nad oes modd i’r broses gynllunio ddigwydd yn newis iaith y plentyn/person ifanc a/neu’r rhieni, mae peryg eu dieithrio o’r cychwyn. Gellid dadlau yn ogystal bod peryg o gamwahaniaethu.

**Cwestiwn 3 – Dyheadau uchel a gwell deilliannau**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae’n bosib bod y Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a’u hyrwyddo, ond nid oes unrhyw sicrwydd bod hynny’n wir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae risg gwirioneddol o wahaniaethu yn eu herbyn.

Cofier bod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn ogystal â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) yn cwmpasu gofynion ieithyddol.

**Cwestiwn 4 – Rhagor o gydweithredu**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae gwaith aml-asiantaeth yn aml iawn yn golygu bod popeth yn digwydd yn Saesneg. Mae'r Byrddau Iechyd yn arbennig yn dueddol o fynnu derbyn pob dogfennaeth yn Saesneg, neu'n bygwth y bydd oedi yn y broses i ganiatáu am gyfieithu.

Mae'r math hyn o gyfundrefn yn gorfodi pobl i ddewis rhwng derbyn gwasanaeth prydlon ar y naill law, neu wasanaeth Cymraeg hwyr ar y llall. Mae'r holl broses yn creu anghymhelliad cryf iawn rhag defnyddio'r Gymraeg. Dylid cynnwys dyletswydd ar wyneb y Mesur ar yr asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn y

| |
|---|
| Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y plentyn/person ifanc/rhieni. |

**Cwestiwn 5 – Osgoi anghytundebau, datrys anghytundebau'n gynharach a hawliau clir a chyson i apelio**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid cyfeirio’n benodol at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfeiriadau yn y Cod drafft at ‘*suitable format*’ a ‘*plain language*’, ond dim cyfeiriad at gyfrwng iaith y prosesau.

**Cwestiwn 6 – Dogfennau ategol**

A fyddech cystal â nodi unrhyw adborth defnyddiol sydd gennych ynghylch y dogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, h.y. y Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), yr holl Asesiadau o Effaith a'r Cod ADY drafft (a gyhoeddir yn yr hydref).

Nid oes unrhyw un o’r dogfennau ategol yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o’r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i’r afael â’r anawsterau a’r gwendidau hyn.

Annealladwy, felly, yw datganiad yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg:

> *“Bydd y Bil drafft hwn yn sicrhau y cynllunnir yn well ar gyfer anghenion dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rheini sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bodlonir eu hanghenion yn well, a hefyd bod darpariaeth i fodloni ystod ehangach o anghenion yn cael ei diogelu’n statudol.”*

O ran y Cod, mae’r cyfeiriad ym mharagraff 14 at Safonau’r Gymraeg yn annigonol. Er bod Awdurdodau Lleol yn dod dan gwmpas y Safonau, nid yw’r safonau’n gyson o un Awdurdod i’r llall ac felly ni fyddant yn creu darpariaeth gyson ledled Cymru o ran y gyfundrefn ADY. Yn bwysicach fyth, nid yw ysgolion yn ddarostyngedig i’r Safonau.

Dylai’r Cod nodi gofynion mewn perthynas â’r Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- yr hawl i gael darpariaeth Gymraeg ac ymdrin â’r prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys prosesau aml-asiantaeth

- parchu dewis iaith y plant a'u rhieni, a phobl ifanc wrth annog cyfranogiad yn y broses, a chamau ymarferol y dylid eu cymryd i hwyluso hynny
- darparu'r wybodaeth a chyngor y cyfeirir atynt yn y Gymraeg – ar bapur, yn electronig neu ar lafar
- nodi (a) cyfrwng iaith addysg y plentyn/person ifanc (b) dewis iaith cyfathrebu'r plentyn/person ifanc a'i rieni o ran cynnwys gorfodol y Cynlluniau Datblygu Unigol
- yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol.

Dylai'r rhain oll fod yn ofyniadau gorfodol yn y Cod Ymarfer fel bod eglurder ynghylch y cyfrifoldebau, y dyletswyddau a'r hawliau. Yn dilyn egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ni ddylai darparu neu weinyddu'r broses yn y Gymraeg olygu oedi, na gwasanaeth israddol mewn unrhyw ffordd i'r defnyddwyr.

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae yna ddiffyg sylfaenol yn y Bil drafft. Mae wedi hepgor yn llwyr unrhyw sylw at natur ddwyieithog Cymru – does dim sôn o gwbl am yr hawl i wneud defnydd cyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg nac i gynnal prosesau'n ddwyieithog.

Byddai deddfu ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol heb gyfeirio at yr angen i gymryd i ystyriaeth anghenion a dewisiadau ieithyddol y plant/pobl ifanc dan sylw yn esgeulus ar y gorau, ac o bosib yn codi cwestiynau cyfreithiol pwysig.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Catherine Evans Lugg

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Ysgol Y Castell

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015** i:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

| Ymatebwyr | Ysgolion | X |
|---|---|---|
| | Ysgolion arbennig | ☐ |
| | Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | ☐ |
| | Y sector addysg bellach | ☐ |
| | Sefydliadau cyn ysgol | ☐ |
| | Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg | ☐ |
| | Undebau athrawon | ☐ |
| | Llywodraeth leol | ☐ |
| | Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith | ☐ |
| | Byrddau Iechyd Lleol | ☐ |
| | Gweithwyr iechyd proffesiynol | ☐ |
| | Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | ☐ |
| | Sefydliadau'r trydydd sector | ☐ |
| | Unigolion | ☐ |
| | Arall | ☐ |

## Cwestiynau ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r Bil drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

**Cwestiwn 1 – Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0–25**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid gweithredu'r cynigion yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â dymuniad y plentyn, person ifanc a/neu riant.

Mae diffygion sylweddol iawn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY ar hyn o bryd, a hynny'n aml oherwydd diffyg capasiti/arbenigedd o fewn y gweithluoedd perthnasol. Bydd ymestyn yr ystod oedran yn debygol o waethygu'r sefyllfa, er ei fod i'w groesawu mewn egwyddor.

Rhaid cofio, ymhlith y grŵp oedran cyn-ysgol yn arbennig, bod plant sy'n uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrlon.

Nid oes sylw dyledus wedi'i roi i'r mater ganolog hwn yn y Bil ei hun nac yn y dogfennau cefnogol.

**Cwestiwn 2 – Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Lefel y cyfrifoldeb ar ysgolion**

Yn sgil dileu Datganiadau, mae'n ymddangos bod cryn dipyn o gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo o Awdurdodau Lleol i ysgolion unigol, o ran gwneud penderfyniadau (*determinations*) ac o ran llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol.

Os yw hynny'n gywir, mae angen cynllunio ar gyfer y sgil-effeithiau yn arbennig felly

yn nhermau:

- neilltuo adnoddau cyllidebol digonol
- sicrhau lefelau staffio digonol
- darparu lefel priodol ac amserol o ran hyfforddiant (i gyrff llywodraethu, arweinwyr ysgol, cydlynwyr ADY, athrawon a chynorthwywyr dysgu)
- sicrhau bod cyngor arbenigol amserol ar gael i ysgolion

Mae'r straen ar ysgolion bach, ble mae lefelau staffio'n isel iawn – ond eto ble mae'r ganran o blant ag ADY yn gallu bod yn uchel - yn debygol o fod yn sylweddol iawn.

**Lefel y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith i'r Cydlynydd ADY**

Mae'r disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd yn y Cod drafft i'w groesawu, a chytunwn y dylai'r Cydlynydd fod yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'n edrych yn glir o ddarllen y disgrifiad o'r rôl a'r cyfrifoldebau mai swydd llawn amser yw hon. Anodd iawn yw ceisio dychmygu ymgymryd â dyletswyddau o'r fath ochr yn ochr ag amserlen dysgu a hynny yn sgil:

- y llwyth gwaith sylweddol iawn (gan gynnwys materion rheolaethol)
- y lefel o arbenigedd sydd ei angen
- yr angen am hyblygrwydd o ran amser i allu cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod y diwrnod gwaith

Dylid dweud hynny'n glir yn y Cod.

Yn yr achosion hynny ble nad yw'n ymarferol i apwyntio un person llawn amser, er enghraifft, mewn ysgolion bach, dylid nodi'r posibilrwydd o benodi Cydlynydd ADY llawn amser ar gyfer clwstwr o ysgolion.

**Anghenion Hyfforddiant a Chymwysterau**

Yn ychwanegol at yr angen am hyfforddiant ymhlith staff presennol ysgolion, Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol, bydd angen cynllunio ar gyfer cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o faterion ADY ymhlith y gweithlu dysgu cyfan.

**Y Gymraeg**

O ran creu fframwaith cyfreithiol cadarn, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil at egwyddorion Mesur y Gymraeg (2011) sy'n datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylai'r broses gynllunio, ynghyd â phob cam arall yn y broses, fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rhieni. Dylai'r egwyddor honno gael ei nodi'r glir ar wyneb y Mesur fel gofyniad statudol.

Os nad oes modd i'r broses gynllunio ddigwydd yn newis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rhieni, mae peryg eu dieithrio o'r cychwyn. Gellid dadlau yn ogystal bod peryg o gamwahaniaethu.

**Cwestiwn 3 – Dyheadau uchel a gwell deilliannau**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae’n bosib bod y Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a’u hyrwyddo, ond nid oes unrhyw sicrwydd bod hynny’n wir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae risg gwirioneddol o wahaniaethu yn eu herbyn. |

| **Cwestiwn 4 – Rhagor o gydweithredu** |
|---|
| A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY? |

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae’r pwyslais ar gydweithio i’w groesawu – rhaid osgoi dyblygu diangen a sicrhau cyd-drafodaeth rhwng yr arbenigwyr yn yr amrywiol meysydd er mwyn cynllunio a darparu’n effeithiol ar gyfer y plant a phobl ifanc dan sylw.

Fodd bynnag, mae rhai ystyriaethau pwysig.

**Amser a chapasiti**: mae angen amser sylweddol ar gyfer cydlynu’r math hwn o gydweithio, ac mae angen i’r person â’r cyfrifoldeb (fel arfer y Cydlynydd ADY) fod ar gael am gyfnodau drwy gydol y diwrnod gwaith. Nid yw hyn yn cydweddu ag amserlen ddysgu.

**Iaith:** mae gwaith aml-asiantaeth yn aml iawn yn golygu bod popeth yn digwydd yn Saesneg. Mae'r Byrddau Iechyd yn arbennig yn dueddol o fynnu derbyn pob dogfennaeth yn Saesneg, neu'n bygwth y bydd oedi yn y broses i ganiatáu am gyfieithu.

Mae'r math hon o gyfundrefn yn gorfodi pobl i ddewis rhwng derbyn gwasanaeth prydlon ar y naill law, neu wasanaeth Gymraeg ar y llall. Mae'r holl broses yn creu anghymhelliad cryf iawn rhag defnyddio'r Gymraeg. Dylid cynnwys dyletswydd ar wyneb y Mesur ar yr asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn y Gymraeg os mai dyna dymuniad y plentyn/person ifanc/rhieni.

| **Cwestiwn 5 – Osgoi anghytundebau, datrys anghytundebau'n gynharach a hawliau clir a chyson i apelio** |
|---|
| A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio? |

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid cyfeirio'n benodol at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfeiriadau yn y Cod drafft at '*suitable format*' a '*plain language*', ond dim cyfeiriad at gyfrwng iaith y prosesau.

**Cwestiwn 6 – Dogfennau ategol**

A fyddech cystal â nodi unrhyw adborth defnyddiol sydd gennych ynghylch y dogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, h.y. y Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), yr holl Asesiadau o Effaith a'r Cod ADY drafft (a gyhoeddir yn yr hydref).

Nid oes unrhyw un o'r dogfennau ategol yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o'r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i'r afael â'r anawsterau a'r gwendidau hyn.

O ran y Cod, mae'r cyfeiriad ym mharagraff 14 at Safonau'r Gymraeg yn annigonol. Er bod Awdurdodau Lleol yn dod dan gwmpas y Safonau, nid yw'r safonau'n gyson o un Awdurdod i'r llall ac felly ni fyddant yn creu darpariaeth gyson ledled Cymru o ran y gyfundrefn ADY. Yn bwysicach byth, nid yw ysgolion yn ddarostyngedig i'r Safonau.

Dylai'r Cod nodi gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- yr hawl i gael darpariaeth Gymraeg ac ymdrin â'r prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys prosesau aml-asiantaeth
- parchu dewis iaith y plant a'u rhieni, a phobl ifanc wrth annog cyfranogiad yn y broses, a chamau ymarferol y dylid eu cymryd i hwyluso hynny
- darparu'r wybodaeth a chyngor y cyfeirir atynt yn y Gymraeg –ar bapur, yn electronaidd neu ar lafar
- nodi (a) cyfrwng iaith addysg y plentyn/person ifanc (b) dewis iaith cyfathrebu'r plentyn/person ifanc a'i rieni o ran cynnwys gorfodol y Cynlluniau Datblygu Unigol
- yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol

Dylai'r rhain oll fod yn ofyniadau gorfodol yn y Cod Ymarfer fel bod eglurder ynghylch y cyfrifoldebau, y dyletswyddau a'r hawliau. Yn dilyn egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ni ddylai darparu neu weinyddu'r broses yn y Gymraeg olygu oedi, na gwasanaeth

israddol mewn unrhyw ffordd i'r defnyddwyr.

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Nac oes

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Catrin Devonald

Sefydliad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015** i:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Ymatebwyr | Ysgolion | ☐ |
| | Ysgolion arbennig | ☐ |
| | Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | ☐ |
| | Y sector addysg bellach | ☐ |
| | Sefydliadau cyn ysgol | ☐ |
| | Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg | x |
| | Undebau athrawon | ☐ |
| | Llywodraeth leol | ☐ |
| | Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith | ☐ |
| | Byrddau Iechyd Lleol | ☐ |
| | Gweithwyr iechyd proffesiynol | ☐ |
| | Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | ☐ |
| | Sefydliadau'r trydydd sector | ☐ |
| | Unigolion | ☐ |
| | Arall | ☐ |

## Cwestiynau ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r Bil drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

**Cwestiwn 1 – Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0–25**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid gweithredu’r cynigion yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg, yn unol â dymuniad y plentyn, person ifanc a/neu riant.

Mae diffygion sylweddol iawn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY ar hyn o bryd, a hynny'n aml oherwydd diffyg capasiti/arbenigedd o fewn y gweithluoedd perthnasol. Bydd ymestyn yr ystod oedran yn debygol o waethygu'r sefyllfa, er ei fod i’w groesawu mewn egwyddor.

Rhaid cofio, ymhlith y grŵp oedran cyn-ysgol yn arbennig, bod plant sy’n uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrlon.

Nid oes sylw dyledus wedi’i roi i’r mater ganolog hwn yn y Bil ei hun nac yn y dogfennau cefnogol.

**Cwestiwn 2 – Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Lefel y cyfrifoldeb ar ysgolion**

Yn sgil dileu Datganiadau, mae’n ymddangos bod cryn dipyn o gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo o Awdurdodau Lleol i ysgolion unigol, o ran gwneud penderfyniadau (*determinations*) ac o ran llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol.

Os yw hynny’n gywir, mae angen cynllunio ar gyfer y sgil-effeithiau yn arbennig felly

yn nhermau:

- neilltuo adnoddau cyllidebol digonol
- sicrhau lefelau staffio digonol
- darparu lefel priodol ac amserol o ran hyfforddiant (i gyrff llywodraethu, arweinwyr ysgol, cydlynwyr ADY, athrawon a chynorthwywyr dysgu)
- sicrhau bod cyngor arbenigol amserol ar gael i ysgolion

Mae'r straen ar ysgolion bach, ble mae lefelau staffio'n isel iawn – ond eto ble mae'r ganran o blant ag ADY yn gallu bod yn uchel - yn debygol o fod yn sylweddol iawn.

**Lefel y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith i'r Cydlynydd ADY**

